**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**12-12-08**

**Presennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, J.R. Jones a'r Cynghorwyr Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn) a Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau), Nia Jones (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Linda W. Jones, W. Tudor Owen, Gwilym Euros Roberts

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATERION BRYS – SEMINAR BUDDSODDI LGC, CAER – 26/27 CHWEFROR 2009**

(Nid oedd yr eitem hon wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w chynnwys dan Adran 100B(4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y derbyniwyd manylion am y seminar ar ôl i'r rhaglen gael ei hanfon at yr aelodau a'r brys i weithredu)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid y derbyniwyd gwahoddiad i anfon cynrychiolwyr i'r seminar uchod. Tynnodd sylw'r aelodau bod 26 Chwefror 2009 yn ddiwrnod y cynhelir y Cyngor i bennu'r dreth a gofynnodd, yn wyneb hynny, a oedd aelod yn dymuno mynychu'r seminar.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at aelodau'r pwyllgor yn gofyn os oes ganddynt ddiddordeb mewn mynychu'r seminar ac os yw'r ymateb yn gadarnhaol bod hyd at ddau aelod i fynychu.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Medi 2008 fel rhai cywir.

**4. "PEACE IN OUR TIME" - CYNHADLEDD YMDDIRIEDOLWYR CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i'r Cynghorwyr John G. Jones, Keith Greenly-Jones, Linda W. Jones, W. Tudor Owen ac yntau gynrychioli'r Cyngor yn y gynhadledd uchod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 23/24 Hydref 2008.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at yr amrywiol gyflwyniadau a gafwyd am sawl agwedd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Nodwyd bod un cyflwyniad wedi rhoddi gwybodaeth am lefelau cyllido a chyfraddau cyfrannu cronfeydd pensiwn llywodraeth leol gan egluro sut y mae rhai amrywiadau oherwydd rhagdybiaethau actiwaraidd. Anogwyd cronfeydd i ailymweld â'u strategaethau buddsoddi a chyfraniadau yng nghyd-destun rhagolygon o ostyngiadau mewn lefelau ariannu cronfeydd o 85% ym Mawrth 2007 i 70% erbyn Awst 2008 a'r tebygolrwydd o gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwyr.

Tynnwyd sylw at gyflwyniad siaradwr arall a oedd o'r farn ei fod yn gamarweiniol i ddefnyddio "bond yields" ar gyfer cyfrifo ymrwymiadau cronfeydd gan bod pris y farchnad wedi ei ystumio pryd mae cronfeydd yn prynu bondiau er mwyn sicrhau diogelwch.

'Roedd yr aelodau a fynychodd o'r farn iddynt gael budd sylweddol o'r gynhadledd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a pharhau i fynychu'r gynhadledd mewn blynyddoedd dilynol.**

**5. GWEITHREDIAD GWEFAN Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau y penderfynodd y pwyllgor eisoes gymeradwyo Cynllun Gwella Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn a oedd yn cynnwys datblygu Gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd a fyddai'n darparu gwybodaeth i aelodau'r cynllun yn ogystal â chyflogwyr y gronfa. Yn ogystal, bydd cyswllt ar gael i alluogi'r aelodau i weld eu cofnod pensiwn personol a chyfrifo amcangyfrifiad o'u buddion ymddeol.

Yn dilyn adolygiad o wefannau cronfeydd pensiwn eraill ac ymgynghori gyda Uned Technoleg Gwybodaeth Gwynedd, awgrymwyd mai'r ffordd orau i symud ymlaen yw datblygu gwefan annibynnol i Gronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn darparu cyfleuster cyfeillgar i'r defnyddiwr. Bydd y wefan a gynlluniwyd yn cynnwys adrannau ar gyfer aelodau cyfredol, aelodau gohiriedig, cynghorwyr, pensiynwyr, cyflogwyr a buddsoddiadau
Eglurodd y byddai cysylltiadau i wefannau defnyddiol eraill ar gael yn ogystal â'r system AXISe ar-lein yn galluogi aelodau i gael golwg ar eu cofnodion personol, cyfrifo eu buddion, cwblhau ffurflenni a gofyn am wybodaeth.

Nodwyd y byddai costau datblygu'r wefan yn cynnwys y gost o gomisiynu dylunydd i ddylunio'r wefan o fewn gofynion strwythur we y Cyngor. Bydd y data yn cael ei fewnbynnu a'i gynnal gan staff pensiynau Gwynedd. Bwriedir adeiladu'r wefan fesul cam a disgwylir cwblhau'r cam cyntaf, ar gyfer aelodau cyfredol, erbyn Ebrill 2009. Cynhwysir y camau dilynol fel rhan o gynllun busnes yr Uned Pensiynau yn y blynyddoedd i ddod. Mewn perthynas â'r costau uwchraddio meddalwedd, bydd ymgynghorydd o Heywood, darparwyr y meddalwedd, angen gosod cam E o'r system rhyngrwyd hunan wasanaeth i'r aelodau ar y gweinyddwr we newydd er galluogi datblygiad y system AXISe ar-lein.

Er mwyn galluogi'r uned i weithredu'r wefan annibynnol a chyfarfod â thargedau'r Cynllun Gwella Cyfathrebu, gofynnodd y Rheolwr Gweithrediadau

Pensiynau am ganiatâd y pwyllgor i ymgymryd â £8,500 o gostau ychwanegol yn 2008/09 er mwyn datblygu'r wefan £6,000 ar gyfer datblygu'r wefan a £2,500 ar gyfer uwchraddio meddalwedd).

Yn dilyn digwyddiadau cenedlaethol lle collwyd data'r Llywodraeth, datganodd yr aelodau bryder am ddiogelwch y system ac eglurodd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau sut y byddai'r system yn rheoli mynediad at wybodaeth.

**PENDERFYNWYD**
**a)Cymeradwyo'r wefan annibynnol ac awdurdodi'r gwariant ychwanegol o £8,500 yn 2008/09 i weithredu'r datblygiadau i wefan y gronfa i gyd-fynd â'r Cynllun Gwella Cyfathrebu.**
**b) Gofyn i'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau sicrhau cyn gymaint â phosibl o ddiogelwch ynghlwm â'r system.**

**6. DIRWYN I BEN THEATR GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am yr oblygiadau ac effaith ariannol dirwyn i ben cwmni Theatr Gwynedd fel cyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Hysbysodd y derbyniwyd cais am wybodaeth berthnasol yn gynharach eleni ac adroddwyd i gyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn am y sefyllfa hon mewn adroddiad dan y teitl "Cyrff Mynediad".

Eglurodd bod cwmni Theatr Gwynedd wedi bod yn gorff mynediad yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd ers 1997. Ar y dyddiad darfod arfaethedig, byddai wyth o'r naw aelod cyfredol yn statudol gymwys i fuddion pensiwn yn daladwy yn syth gan y byddent tros oed 50, ond dim ond un ohonynt fyddai wedi cyrraedd oed ymddeol arferol. O ganlyniad byddai cost taliad cynnar o £133,015.80.

Eglurwyd fel arfer, y byddai diffygion o gyn aelodaeth i'w talu gan Theatr Gwynedd tros y cyfan o'r 10 mlynedd nesaf, yn unol â'r tybiaethau a wnaed yn ystod y prisiant. Ymhelaethwyd fod actiwari'r gronfa, Hymans Robertson, wedi darparu asesiad terfynu o gyfran Theatr Gwynedd o asedau a dyledion y gronfa -

| **Canlyniadau** | **31 Mawrth 2007 (£000)** | **23 Hydref 2008 (£000)** | **23 Hydref 2008 (£000)** |
|---|---|---|---|
| Dyledion | | | |
| (a) Aelodau cyfredol | 732.6 | 0.0 | 0.0 |
| (b) Aelodau gohiriedig | 0.0 | 90.1 | 132.7 |
| (c) Pensiynwyr | 31.6 | 844.9 | 1038.9 |
| Cyfanswm dyledion | 764.1 | 935.1 | 1171.6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhan o'r asedion | 730.6 | 586.9 | 586.9 |
| Gwarged/**(diffyg)** | (33.5) | (348.0) | **(584.6)** |

Eglurwyd lle mae cyflogwr yn terfynu heb atebolrwydd ar gyfer adennill diffygion o gyfraniadau cyflogwr, y dull mwyaf gochelgar o brisio diffygion yw ar sail "gilts" fel y dangosir yn y golofn dde o'r tabl uchod. O dan y dull yma, cyfanswm y diffyg mewn perthynas â Theatr Gwynedd yw £584.6k (gan gynnwys y £133k a nodwyd uchod).

Apwyntiodd Bwrdd Theatr Gwynedd, Parkin S. Booth fel datodwr. Anfonwyd datganiad i gyfarfod credydwyr ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd yn datgan y ddyled o £584.6k sy'n ddyledus. Tra cyflwynwyd hawliad am y swm yma, yn yr amgylchiadau nid yw'n debygol y bydd y gronfa yn adennill y swm llawn. Eglurwyd, pe byddai dyled heb ei adennill, byddai rhaid ei rannu rhwng holl gyflogwyr y gronfa.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau y dylid adolygu'r polisi parthed statws y cyrff mynediad yn y gronfa bensiwn er ystyried os yw'r Cyngor yn gyfforddus gyda hwy.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn yr adroddiad.**
**b) Gofyn i'r swyddogion gymryd camau priodol i adennill y diffyg.**
**c) Gofyn i'r swyddogion adolygu'r polisi parthed statws y cyrff mynediad yn y gronfa bensiwn er ystyried os yw'r Cyngor yn gyfforddus gyda hwy a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor.**

## 7. ADOLYGU'R DATGANIAD CYDYMFFURFIAD A'R DREFN LYWODRAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro y penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf i beidio cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau oherwydd mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r gronfa ac y byddai'n anodd dewis cynrychiolwyr eraill o blith y cyflogwyr. Fodd bynnag, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol y dylid diwygio cyfansoddiad y Pwyllgor Pensiynau er mwyn caniatau hawl pleidleisio i'r un cynrychiolydd yr un o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Yn sgîl y penderfyniadau hyn, cytunodd y pwyllgor hefyd i drefnu cyfarfodydd anffurfiol gyda'r cyflogwyr. Anfonwyd llythyr ymgynghoriad at yr holl gyflogwyr yn ceisio eu barn ar y drefn hon.

Diwygiwyd y Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol i adlewyrchu penderfyniadau'r pwyllgor a rhoddodd fanylion am y diwygiadau i'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diwygiadau i'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol.**

## 8. AMSERLEN AR GYFER PENODI RHEOLWR BUDDSODDI NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro ar yr amserlen ar gyfer penodi Rheolwr Buddsoddi Newydd. Hysbysodd ei bod yn ofynnol, er mwyn penodi rheolwr ecwiti byd-eang gweithredol newydd, i'r gronfa o fewn cyfyngiadau amser cyfreithiol, gwblhau proses tendro ffurfiol a fydd yn cynnwys pedwar cam sef –

a) Drafftio a chytuno hysbysiad "Official Journal of the European Union" penodol ar gyfer y gronfa a "Pre Qualification Questionnaire"
b) Dadansoddi ymatebion y PQQ drwy ddefnyddio sgrinio mesurol ac ansoddol i adnabod rheolwyr buddsoddi i'w rhoddi ar y rhestr hir
c) Anfon "Requests for Proposal" manwl at y rheolwyr ar y rhestr hir ac yna dadansoddi'r ymatebion.
ch) Rhestr fer o reolwyr i wneud cyflwyniad i'r pwyllgor.

Anfonwyd y "Requests for Proposal" allan ar 7 Tachwedd 2008 at naw rheolwr gyda 19 Rhagfyr 2008 fel dyddiad cau. Yn dilyn hyn bydd Hymans Robertson yn paratoi adroddiad erbyn 6 Ionawr 2009, yn trafod yr ymatebion ac yn argymell rhestr o reolwyr i gael cyfweliad. Trefnwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau ar 12 Ionawr 2009 i drafod yr adroddiad gyda Hymans Robertson drwy fideo gynhadledd pryd y bydd angen penderfynu pa reolwyr i'w cyfweld. Cynhelir y cyfweliadau ar 2 Chwefror 2009. Yn dilyn yr apwyntiad cymerir y camau angenrheidiol i drosglwyddo arian o Legal & General i'r rheolwr newydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r amserlen uchod.**

## 9. BUDDSODDI MEWN BONDIAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau y cyflwynodd Hymans Robertson yn y cyfarfod i fonitro perfformiad y rheolwyr buddsoddi ym Manceinion ar 24 Tachwedd 2008, bapur yn amlinellu cynigion diwygiedig ar gyfer buddsoddi mewn bondiau ar gyfer y dyfodol. Atgoffodd yr aelodau mai'r bwriad gwreiddiol oedd rheoli bondiau, sy'n cynrychioli tua 15% o asedau'r gronfa, drwy un o'r rheolwyr goddefol sef BGI. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau buddsoddi yn gwahardd buddsoddiad mwy na 35% o'r gronfa mewn unrhyw un cytundeb yswiriant a gan bod y Cyngor gyda oddeutu 35% o'r gronfa mewn ecwiti a reolir yn oddefol hefyd, o'u cynnwys gyda'r 15% a fuddsoddwyd mewn bondiau byddai'n rhaid tendro am reolwr buddsoddi goddefol arall.

Ym mis Gorffennaf 2008 codwyd y posibilrwydd gyda Hymans Robertson mai ateb arall fyddai cael rheolwr bondiau a fyddai'n rheoli bondiau ar sail cytundeb gweithredol a golygai hyn wedyn y byddai modd i BGI edrych ar ôl holl asedau ecwiti goddefol a fyddai'n golygu na fyddai angen penodi rheolwr goddefol arall. Yn y cyfarfod ym Manceinion y teimlad ymysg yr aelodau oedd y dylid manteisio ar y cyfleoedd a fyddai'n codi i gael gwell ffigurau perfformiad, hyd yn oed ar ôl y ffioedd uwch, drwy benodi rheolwr bondiau gweithredol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno i benodi rheolwr bondiau gweithredol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.50am